# Grantiau Bach Gwrthsefyll Tywydd 2025-2026: Canllawiau ar gyfer Busnesau Twristiaeth a Lletygarwch Bach a Meicro

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Beth yw'r gronfa hon?

Gan adeiladu ar y Gronfa Addasu i'r Tywydd ar gyfer Atyniadau a gyflwynwyd yn gynharach yn y flwyddyn, mae Croeso Cymru bellach yn lansio rownd ychwanegol o gyllid fel rhan o Flwyddyn Croeso 2025. Bydd y gronfa yn cynnig grantiau i fusnesau twristiaeth a lletygarwch bach i fuddsoddi mewn mesurau sy'n eich galluogi i Addasu i'r Tywydd. Y nod yw eich helpu i barhau i fasnachu a darparu croeso cynnes i ymwelwyr, beth bynnag yw'r tywydd.

## Pam mae hyn yn bwysig?

Mae adborth diweddar gan fusnesau twristiaeth a lletygarwch yn dweud wrthym mai tywydd gwael ac anrhagweladwy yw un o'r prif resymau dros gael llai o ymwelwyr. Mae llawer mwy o westeion bellach yn archebu munud olaf neu'n canslo teithiau yn dibynnu ar ragolygon y tywydd.  Os gall eich busnes a'ch cyrchfan gynnig profiadau gwych ym mhob tywydd, byddwch chi'n fwy gwydn ac yn fwy deiniadol i ymwelwyr.

## Pa gymorth sydd ar gael?

- Mae grantiau ar gael rhwng **£5,000 a £20,000**.
- Gall y grant dalu hyd at **75% o gostau eich prosiect** (hyd at £20,000).
- Bydd angen i chi ariannu'r gweddill eich hun (o'ch arian eich hun neu gyllid preifat).
- Ni allwch ddefnyddio grantiau sector cyhoeddus eraill fel cyllid cyfatebol.
- Rhaid i chi gadarnhau nad ydych wedi cael mwy na £315,000 o gymorth cyhoeddus dros y 3 blynedd diwethaf.

**Enghraifft:**

Os yw eich prosiect yn costio £20,000, gallech gael £15,000 o grant (75%).
Os yw eich prosiect yn costio £40,000, gallech gael £20,000 o grant (yr uchafswm a ganiateir).

## Sut mae'r taliad yn gweithio?

- Rydych chi'n talu am y prosiect yn gyntaf, yna hawlio'r grant yn ôl mewn un rhandaliad ar ôl iddo orffen.
- Nid oes unrhyw daliadau ymlaen llaw ar gael.
- Rhaid i chi fod wedi cwblhau'r prosiect a chyflwyno'ch hawliad erbyn **13 Mawrth 2026**.

**Pwy all wneud cais?**

Rhaid i'ch busnes:

- Fod yn fusnes twristiaeth neu letygarwch sydd wedi'i leoli yng Nghymru - edrychwch ar y rhestr o fusnesau cymwys ar ddiwedd y canllaw hwn.
- Cyflogi rhwng 1 a 49 o weithwyr parhaol drwy'r flwyddyn trwy dalu drwy ennill (PAYE).
- Wedi bod yn masnachu ers o leiaf flwyddyn.
- Cael gwefan, cyfrifon cyfryngau cymdeithasol neu gofnod ar safle teithio fel TripAdvisor i ddangos eich bod yn denu ymwelwyr o'r tu allan i'ch ardal leol.
- Dim ond un cais i bob cwmni (uchafswm o ddau os ydych chi'n berchen ar fwy nag un busnes).

Nid ydych yn gymwys i wneud cais os:

- Rydych eisoes wedi derbyn cyllid o dan y Cynllun Addasu i'r Tywydd cyntaf.
- Rydych chi'n rhan o grŵp mwy o gwmnïau lle mae cyfanswm nifer y gweithwyr ar gyfer y grŵp yn fwy na 49.
- Rydych chi'n gosod contractau sero-awr yn unochrog.
- Rydych chi'n gorff cyhoeddus.

**Am beth all y grant dalu?**

Gall y grant dalu am gostau cyfalaf ar gyfer seilwaith sydd wedi'i gynllunio i warchod rhag y tywydd, yn ogystal â buddsoddiadau mewn gweithgareddau ac offer a fydd yn caniatau i'ch busnes ddarparu profiadau gwell i'ch cwsmeriaid ar ddiwrnodau gwlyb fel:

- Canopïau, pergolas, neu seddi wedi'u gorchuddio
- Llwybrau cerdded wedi'u gorchuddio neu lochesi i ymwelwyr
- Llwybrau sglodion pren neu raean
- Lleiniau caled ar gyfer meysydd parcio
- Meysydd chwarae dan do

**Sylwer:** Rhaid i'r gwelliannau fod ar gael at ddefnydd y cyhoedd ac ni allwn cyfleusterau sydd at ddefnydd unigryw gwesteion sy'n aros. Nid yw nodweddion preifat (fel tŷ gwydr ar gyfer bwthyn neu dwba poeth ar gyfer defnydd gwesteion yn unig) yn gymwys.

**Beth na ellir ei gynnwys?**

- Unrhyw beth rydych chi eisoes wedi talu amdano cyn cael y cynnig grant.
- Costau refeniw megis marchnata, gorbenion, neu amser staff.
- Atgyweiriadau a chostau chynnal a chadw.
- Mesurau rheoli gwres.
- Ffioedd proffesiynol (ac eithrio ffioedd pensaer/cynllunio os oes angen ar gyfer y prosiect).
- Stoc neu nwyddau traul h.y. eitemau cost isel sy'n cael eu disodli'n aml.
- Prosiectau sy'n arwain at ddiswyddiadau.
- Gweithgareddau sy'n gysylltiedig â gweithgareddau gwleidyddol plaid, hyrwyddo safbwyntiau crefyddol, gamblo, pornograffi, gwasanaethau rhywiol neu weithgareddau anghyfreithlon.

**Sut ydw i'n gwneud cais?**

Bydd un rownd ar gyfer ceisiadau.

**Ceisiadau yn agor:** 29 Medi 2025
**Ceisiadau yn cau:** 5pm 10 Tachwedd 2025
**Cyhoeddi Penderfyniadau:** Ddim hwyrach na 10 Rhagfyr 2025

Rhaid i chi gyflwyno:

- Ffurflen gais wedi'i chwblhau – gallwch lawrlwytho'r ffurflen gais isod
- Cyfrifon diwedd blwyddyn diweddaraf
- O leiaf un dyfynbris ar gyfer y gwaith
- Caniatâd cynllunio (os yw'n berthnasol)

Rhaid i'ch cyfrifon ddangos eich bod yn masnachu'n broffidiol. Gall colledion neu fantolen negyddol olygu y caiff eich cais ei wrthod oni bai eich bod yn gallu darparu esboniad.

**Sut bydd fy nghais yn cael ei asesu?**

Bydd eich cais yn cael ei asesu yn gyntaf i weld a yw'ch busnes a'ch cynnig yn gymwys. Os yw'ch cais yn gymwys, yna bydd yn cael ei sgorio ar:

1. **Profiad Ymwelwyr** – A yw'r cyfleuster newydd yn gwella profiad ymwelwyr ym mhob tywydd ac yn gwella'r cynnig twristiaeth lleol?
2. **Cryfhau'r Busnes** – A fydd yn helpu eich busnes i dyfu a dod yn fwy gwydn i dywydd garw?
3. **Cyflawnadwyedd a Gwerth am Arian** – A yw eich cynllun cyflawni yn glir ac yn realistig?
4. **Cynaliadwyedd** – A fydd y gwelliannau yn para ac yn gyfeillgar i'r amgylchedd?

Dim ond y prosiectau sydd â'r sgôr uchaf fydd yn cael eu hargymell i'w cymeradwyo.

**Beth sy'n gwneud cais cryf?**

Dylai eich prosiect:

- Wella profiad ymwelwyr ym mhob tywydd
- Helpu eich busnes i dyfu a dod yn fwy gwydn
- Bod yn gynaliadwy (wedi'i adeiladu i bara, eco-gyfeillgar, costau cynnal a chadw isel)
- Bod yn gyflawnadwy (cynllun clir, costau realistig, risgiau wedi'u rheoli, cyllid cyfatebol wedi'i sicrhau)

Rydym yn arbennig eisiau cefnogi prosiectau sy'n drawiadol neu sydd â'r potensial i dynnu synnu ymwelwyr. Er enghraifft, gallai llain galed ymgorffori'r gair 'Croeso' mewn ffordd weledol ddiddorol, neu gallai llochesi ymwelwyr gynnwys deunyddiau a chyfeiriadau lleol

| Maen prawf | Isel (1 pwynt) | Canolig (3 pwynt) | Uchel (5 pwynt) |
|---|---|---|---|
| **1. Profiad Ymwelwyr** | • Tystiolaeth gyfyngedig o wella profiad ymwelwyr<br>• Mae'r cyfleuster o fudd i'ch busnes yn unig<br>• Sgôr hylendid gwael neu heb ei raddio<br>• Oriau agor cyfyngedig | • Yn amlwg yn gwella profiad yr ymwelwyr<br>• Ger atyniad ymwelwyr/ased naturiol/cyrchfan ymwelwyr<br>• Yn manteisio busnesau lleol eraill<br>• Sgôr hylendid da neu wedi'i raddio<br>• Ar agor ar benwythnosau/gwyliau banc yn y tymor uchel | • Yn gwella profiad ymwelwyr a gwella'r cynnig twristiaeth lleol<br>• Atyniad mawr agos (e.e. Llwybr Arfordir Cymru)<br>• Yn gweithio gyda busnesau eraill ac yn hyrwyddo busnesau eraill<br>• Wedi ennill gwobrau/ gradd uchel / sgôr hylendid uchel<br>• Ar agor drwy'r flwyddyn |
| **2. Cryfhau'r Busnes** | • Dim tystiolaeth glir o effaith y tywydd ar y busnes<br>• Manteision amwys o'r buddsoddiad | • Yn esbonio sut mae'r tywydd yn effeithio ar fusnes<br>• Yn dangos sut y bydd y seilwaith yn helpu'r busnes i dyfu ac yn cynnwys rhai targedau (e.e. cynnydd mewn capasiti, mwy o ymwelwyr, mwy o incwm) | • Tystiolaeth glir o effaith y tywydd ar y busnes<br>• Yn darparu nodau uchelgeisiol (e.e. gwariant uwch fesul ymwelydd, tymor hirach, swyddi newydd neu amodau cyflogaeth gwell)<br>• Cynlluniau i dyfu incwm mewn ffyrdd newydd |
| **3. Cyflawnadwyedd Prosiect a Gwerth am Arian** | • Cynllun aneglur<br>• Dim dyfynbrisau<br>• Rhai risgiau (e.e. angen cynllunio llawn)<br>• Arian cyfatebol heb ei sicrhau | • Cynllun clir<br>• Darparwyd o leiaf un dyfynbris<br>• Rhywfaint o risg ond gellir ei liniaru<br>• Arian cyfatebol wedi'i nodi | • Cynllun clir a manwl iawn<br>• Costau realistig gyda dyfynbrisiau<br>• Risgiau wedi'u rheoli'n dda<br>• Arian cyfatebol wedi'i sicrhau |
| **4. Cynaliadwyedd** | • Datrysiad tymor byr<br>• Costau Cynnal a chadw uchel<br>• Dim ystyriaeth amgylcheddol | • Gwelliannau gwydn gyda chostau cynnal a chadw isel<br>• Rhai nodweddion ecogyfeillgar e.e. deunyddiau lleol | • Gwelliannau gwydn iawn, yn hawdd i'w cynnal a'u cadw<br>• Nodweddion eco-gyfeillgar, deunyddiau wedi'u hailgylchu/ lleol, tô gwyrdd ac ati<br>• Nodweddion trawiadol |

**Sut fydda i’n cael gwybod am y penderfyniad?**

- Cewch wybod y penderfyniad a’r rheswm drosto.
- Os byddwch yn llwyddiannus, byddwch yn cael Llythyr Cynnig Grant.
- Peidiwch â dechrau gweithio nac ymrwymo i'r prosiect nes i chi gael penderfyniad.
- Nid oes proses apelio ar gyfer y grant hwn.

**Sut ydw i'n hawlio'r grant?**

- Cwblhewch a thalwch am y prosiect a chyflwynwch eich hawliad erbyn **13 Mawrth 2026**. Ni fydd unrhyw daliadau yn cael eu gwneud yn erbyn hawliadau a gyflwynir ar ôl y dyddiad hwn.
- Rhaid i hawliadau gynnwys:
    - Ffurflen hawlio wedi'i chwblhau
    - Anfonebau a phrawf talu
    - Lluniau o'r gwaith gorffenedig
    - Polisi'r Gymraeg

Rhaid i welliannau aros yn eu lle am o leiaf dair blynedd, neu efallai y bydd yn rhaid i chi ad-dalu'r grant.

**Beth arall sydd angen i mi ei wybod?**

**Caffael**

- Dylech gael dyfynbrisiau gan gyflenwyr i ddangos eich bod chi'n cael gwerth da am arian. Cynhwyswch o leiaf un dyfynbris ar gyfer pob eitem gyda'ch cais. Os ydych chi'n defnyddio cwmni rydych chi'n berchen arno, rhaid i chi brofi bod y costau'n deg ac nad ydynt yn cynnwys elw.

**Caniatâd cynllunio**

- Mae prosiectau sydd eisoes â chaniatâd cynllunio neu nad oes ei angen arnynt yn fwy tebygol o gael eu cymeradwyo gan fod yn rhaid i chi fod wedi cwblhau a thalu am eich prosiect erbyn 13 Mawrth 2026. Os oes gennych ganiatâd cynllunio eisoes, mae’n rhaid ichi ei anfon gyda'ch cais.

**Polisi Iaith Gymraeg a Chyhoeddusrwydd**

- Os byddwch yn llwyddiannus, bydd angen i chi baratoi Polisi Iaith Gymraeg (ar gyfer darpariaeth dwyieithog) a'i ddarparu wrth hawlio'r grant. Bydd angen i chi hefyd gydnabod cefnogaeth Llywodraeth Cymru i'r prosiect yn eich holl gyhoeddusrwydd sy'n ymwneud â'r prosiect. Bydd manylion llawn yn eich llythyr cynnig grant.

**Contract Economaidd**

- Nid oes angen i chi lofnodi contract economaidd, ond rhaid i'ch prosiect ddangos cryfder economaidd a gwytnwch hinsawdd.

**Ymchwil dilynol**

- Os ydych chi'n cael grant, rhaid i'ch busnes gymryd rhan mewn ymchwil ddilynol. Bydd hyn yn edrych ar sut mae'r gwaith Addasu i'r Tywydd wedi effeithio ar eich busnes a'ch ymwelwyr. Rydym yn bwriadu anfon arolwg yn 2026–2027.

**Diogelu Data**

Llywodraeth Cymru yw'r Rheolwr Data ar gyfer unrhyw wybodaeth rydych chi'n ei darparu. Gellir rhannu'r wybodaeth a gasglwn gydag asiantaethau atal twyll a fydd yn ei defnyddio i atal twyll a gwyngalchu arian ac i wirio hunaniaeth. Mae rhagor o fanylion am sut y bydd eich gwybodaeth yn cael ei defnyddio gennym ni a'r asiantaethau atal twyll hyn isod.

Bydd yr wybodaeth a ddarperir gennych yn cael ei defnyddio gan Lywodraeth Cymru i brosesu a gweinyddu'r cais hwn. Gellir rhannu'r wybodaeth a ddarperir yma ac yn y gwaith papur cysylltiedig yn ddiogel yn gyfrinachol â sefydliadau cyllido cyhoeddus eraill, a chynghorwyr technegol allanol (fel y bo'n briodol). Mae'n angenrheidiol i ni gasglu'r wybodaeth hon er mwyn i ni gydymffurfio â'n rhwymedigaethau cyfreithiol o dan y cynllun. Gall methu â darparu'r holl wybodaeth ofynnol arwain at beidio allu cynnal asesiad llawn o'r cais.

Bydd y wybodaeth a gesglir yn hygyrch i dimau gwasanaeth cymorth Llywodraeth Cymru a'i gweinyddwyr technegol sy'n cefnogi'r system TG. Ni fydd gweinyddwyr technegol y system yn defnyddio eich manylion mewn unrhyw ffordd. Mae'r cyfnod cadw ar gyfer y data sydd gennym yn cael ei esbonio yn yr hysbysiad preifatrwydd, gan gynnwys eich hawliau o dan Reoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU.

**Camau Nesaf**

Cwblhewch y ffurflen gais drwy ei lawrlwytho yma
https://www.llyw.cymru/blwyddyn-croeso-cronfa-addasu-ir-tywydd-ar-gyfer-busnesau-twristiaeth-lletygarwch-bach-2025-i-2026

**Dylid anfon ceisiadau at: WeatherProofingFund@gov.wales erbyn 5pm 10 Tachwedd 2025.**

Tabl 1. Codau SIC Busnesau Cymwys

Os yw'ch busnes twristiaeth neu letygarwch yn cyd-fynd ag un o'r categorïau a restrir isod, gallwch wneud cais am y gronfa—ar yr amod eich bod hefyd yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd eraill.

| **Gweithgaredd Busnes** | **Cod SIC** |
|---|---|
| Gwestai a llety tebyg | 55100 |
| Canolfannau gwyliau a phentrefi | 55201 |
| Hosteli ieuenctid | 55202 |
| Llety gwyliau eraill a llety eraill ar y cyd | 55209 |
| Parciau cerbydau hamdden, parciau trelars a meysydd gwersylla | 55300 |
| Llety arall | 55900 |
| Bwytai trwyddedig | 56101 |
| Bwytai a chaffis heb drwydded | 56102 |
| Tafarndai a bariau | 56302 |
| Gweithgareddau parciau adloniant a pharciau thema | 93210 |
| Gweithgareddau hamdden eraill (gan gynnwys gweithgareddau awyr agored) | 93290 |
| Cludiant dŵr teithwyr ar y môr ac arfordirol | 50100 |
| Trafnidiaeth dŵr teithwyr mewndirol | 50300 |
| Cyfleusterau celfyddydol | 90040 |
| Gweithgareddau amgueddfeydd | 91020 |
| Gweithredu safleoedd ac adeiladau hanesyddol ac atyniadau tebyg i ymwelwyr | 91030 |
| Gerddi botanegol a sŵolegol a gweithgareddau gwarchodfeydd natur | 91040 |